***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 Rhif 1808 (Cy. 259) (C. 111)

# PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Plant a Theuluoedd 2014 (Cychwyn) (Cymru) 2015

*Gwnaed - - - - 16 Hydref 2015*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 139(2)(b) o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014(**1**) yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi, dehongli a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Plant a Theuluoedd 2014 (Cychwyn) (Cymru) 2015.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "Deddf 2014" ("*the 2014 Act*") yw Deddf Plant a Theuluoedd 2014.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

**Cychwyn**

**2.** Daw adran 1 o Ddeddf 2014 i rym ar 19 Hydref 2015.

*Mark Drakeford*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

16 Hydref 2015

(**1**) 2014 p. 6.

**Statws** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn Cychwyn hwn wedi ei wneud gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 ("Deddf 2014").

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym ar 19 Hydref 2015 adran 1 o Ddeddf 2014.

Mae adran 1 o Ddeddf 2014 yn mewnosod is-adran (1A) yn adran 98 o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (mabwysiadu cyn cychwyn: gwybodaeth) sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau at ddiben hwyluso cyswllt rhwng personau sydd â pherthynas ragnodedig â pherson a fabwysiadwyd cyn 30 Rhagfyr 2005 a pherthnasau'r person hwnnw.